# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com £1

**Medi 2026 – Cyfrol 11 – Rhifyn 12**

## Y sioe flodau a chynnyrch flynyddol

Nid dim ond blodau llysiau, cynnyrch cartref a blodau di-ri, ond stondinau, sioe gŵn, alpaca a stondinau amrywiol hefyd. Peidiodd y glaw a bu'n brynhawn llwyddiannus iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cystadlu, cefnogi a chyfrannu at y sioe. Os hoffech chi ymuno â'r pwyllgor i ofalu bod y cyfan yn digwydd eto'r flwyddyn nesa anfonwch e-bost at llandyrnogshow@gmail.com.













# Y Sioe Flodau a Chynnyrch




**Ffrwythau a llysiau:** Yr arddangosyn gorau – Richard Davies; y nifer mwyaf o bwyntiau – Graham Pickles

**Blodau:** Yr arddangosyn gorau – Gwilym Evans; y nifer mwyaf o bwyntiau – Graham Pickles

**Trefnu blodau:** Yr arddangosyn gorau a'r nifer mwyaf o bwyntiau – Karen Morris

**Coginio:** Yr arddangosyn gorau – Veronica Roberts; y nifer mwyaf o bwyntiau – Ruth Griffith

**Pobl ifanc:** Yr arddangosyn gorau – Elinor Morris; y nifer mwyaf o bwyntiau: Ralph Kinsey

**Crefft:** Yr arddangosyn gorau – John Woolley; y nifer mwyaf o bwyntiau – Gwenda Marshall

**Ffotograffiaeth:** Yr arddangosyn gorau – Christine Carroll

**Adran oedolion:** Y nifer mwyaf o bwyntiau – Graham Pickles

**Hoff arddangosyn y Llywydd:** Amy Weyman

**Hoff arddangosyn yr Ysgrifennydd:** John Woolley

**Llywydd y sioe:** Y Cynghorydd Merfyn Parry






# Y Sioe Flodau a Chynnyrch
















Diolch i Jackie Le Fèvre am y lluniau. Mae rhagor i'w gweld yn yr adran Saesneg.

# Y Sioe Flodau a Chynnyrch






**Mike Neumann**
**Printers Ltd**

- Business printing
- Personalised printing
- Office supplies
- Helium balloons



**01745 814067**
**07766 807498**

41 Vale Street, Denbigh LL16 3AH
neumannprinters@aol.com
neumannprintersdenbigh.co.uk

**DBP** **Denbigh Building Plastics**

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Maw 8fed | Paned a sgwrs | 10am |
| Mer 9fed | Undeb y Mamau<br>Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 12–3pm<br>7pm |
| Llun 14eg | Grŵp gweu | 10am |
| Maw 15fed | Cyngor Cymuned | 7pm |
| Mer 16eg | Tuesday Club | 2pm |
| Llun 21ain | Grŵp gweu | 10am |
| Maw 22ain | Paned a sgwrs | 10am |
| Llun 28ain | Grŵp gweu | 10am |
| Mer 30ain | Peintio a phaned | 12–3pm |

# Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| Sul 6ed | Parch. Andras Iago | 9.45am |
| Sul 13eg | Pererindod i Dŷ Mawr Wybrnant | |
| Sul 27ain | Arwel Emlyn | 9.45am |

# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| Sul 6ed | Boreol weddi | 9.30am |
| Sul 13eg | Cymun bendigaid | 9.30am |
| | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre | 3.30pm |
| Sul 16eg | Cymun bendigaid | 9.30am |
| Sul 23ain | Cymun bendigaid | 9.30am |

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Maw 8fed | Clwb garddio (ystafell isaf)<br>Clwb Merlota (neuadd) | 7–9pm<br>7–9pm |
| Mer 9fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Thu 10fed | Pwyllgor y sioe flodau | 7–8pm |
| Sad 12fed | Bore coffi – Eisteddfod Llandyrnog | 10am |
| Sun 13eg | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 14eg | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 16eg | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 17eg | Cyfarfod blynyddol Siop Llandyrnog | 7–9pm |
| Llun 21ain | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 23ain | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 26ain | Bore coffi – Elusen blant Ysbyty Alder Hey | 10am |
| Llun 28ain | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 29ain | Y Gymdeithas Seryddiaeth | 7.30–10pm |
| Mer 30ain | Pilates | 7.15–8.15pm |

I logi'r **Ystafelloedd Coco** cysylltwch â Carolyn Langford-Jones: 01824 790122 neu ar e-bost: cocoaroomsbookings@gmail.com
I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

# Newyddion y pentre

**Croeso** i drigolion newydd y pentre, rydyn ni'n gobeithio y byddwch yn mwynhau byw yma:
Mae Emyr a Jan Evans, Mountain View (o Langynhafal), croeso i chi'ch dau.
Mae bythynnod Sgwâr yr Eglwys yn edrych yn dda iawn, diolch i Lizzie sydd wedi gweithio'n galed i'w codi i'r fath safon uchel – croeso i Michael Fallows a Sandra Baddley, y tenantiaid lwcus newydd.
Croeso hefyd i Lynn Goodson a Ceri Wilson i Kinmel Terrace.

**Llongyfarchiadau** i bawb sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau TGAU, BTech a Safon Uwch – dymunwn yn dda i chi. Llongyfarchiadau hefyd i Jac Evans sydd graddio mewn peirianneg sifil a phob hwyl ar ei swydd ym Manceinion gyda chwmni Kier.

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

**Dymuniadau da** i Edith Hughes sydd adre ar ôl cyfnod mewn ysbytai; i Buddug Foulkes sydd yn yr ysbyty; ac i Buddug Jones a Rhian Jones ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

**Cydymdeimlwn**
ag Ian Roberts, Sgubor Wen, a'r teulu ar farwolaeth ei fodryb Helen Roberts, gynt o Helenfa;
â theulu a ffrindiau'r ddiweddar Mrs Helen Scott, Glan y Wern Cottage;
â Mrs Fran Harrison, Aberchwiler, darllenydd ffyddlon o'r Llais, ar farwolaeth ei mam, Stephen, o Lerpwl.

**Cae chwarae Cae Nant** Yn dilyn cais llwyddiannus gan y cyngor cymuned am arian cymudedig gan Gyngor Sir Ddinbych, mae'r gwaith wedi dechrau ar gamau olaf y gwelliannau yng Nghae Nant, sef codi ffens o gwmpas y cae chwarae. Diolch yn fawr i John Morris am ei waith caled ar hyn.





# Gwaith ar Bont Llundain

*London Bridge is falling down* … Mae'r hen rigwm yn ddigon gwir ar hyn o bryd. Dechreuodd y gwaith ar 3 Awst i osod ffos newydd yn lle'r un sy'n mynd o dan Bont Llundain ar y ffordd fynyddig serth rhwng Llangwyfan a Nannerch. Mae'r gwaith i fod i bara naw wythnos ac er bod y ffordd wedi'i chau i gerbydau, mae Catherine Howarth sy'n byw yn y cyffiniau, wedi anfon y lluniau hyn aton ni – mae'n waith anferth.

Yn aml, mae pobl yn gofyn, o ble daeth yr enw London Bridge? Mae ychydig o wybodaeth yn y gyfrol *Trem yn Ôl* (cyhoeddiad Cymdeithas Hanes Llandyrnog):

> Bu "Pont Llundain" yn fan cyfarfod i'r porthmyn a'r ffermwyr lleol, mae'n debyg, gan fod nifer o dyddynnod bychain yng nghesail y mynydd gynt, a'r porthmyn yn teithio dros y mynydd tuag at Licswm a Llundain.

Dychmygwch gerdded yr holl ffordd i Lundain yn gyrru defaid, gwartheg – gwyddau, hyd yn oed – adeg y Nadolig. Hyd yn oed heddiw (pan mae ar agor) mae'r ffordd gul hon yn gallu bod y ffordd fyrraf i'r Wyddgrug neu i Dreffynnon. Ond mae'n bwysig mynd gan bwyll, wyddoch chi ddim beth ddaw i'ch cyfarfod – cerddwyr, beicwyr, ffesantod, sgwarnogod, hyd yn oed. Unwaith fe ddes i ar draws buwch ar ganol y ffordd yn bwyta'r gwrych. Roedd hi'n anodd ei pherswadio hi i symud – ble mae'r porthmyn pan fo'u hangen?

Diolch am y lluniau, Catherine.

*Gwen Butler*



*Cyn dechrau'r gwaith*



*Cwrs y nant wedi'i droi drwy'r beipen fawr ddu*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann a Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod Williams.

**Cyngerdd**
**Côr Meibion Caerwys**
**a cherddorion ifanc lleol**
**Nos Sadwrn 10 Hydref am 7**
**Neuadd y Pentre, Llandyrnog**
**Tocynnau £10, plant am ddim**
**Yr elw at Eglwys St Tyrnog**

# Y Ffyrgi bach llwyd

Byth ers symud i'r ardal i fyw ryw wyth mlynedd yn ôl, rydw i wedi mynd i wylio teithiau tractorau lleol, yn llawn brwdfrydedd a chenfigen. Dwi wedi bod yn frwd dros geir a beiciau modur byth ers tyfu'n oedolyn, ond roedd hi'n dod yn amlwg bod angen tractor clasurol yn fy mywyd i hefyd!

Fis Ebrill eleni, daeth y sêr at ei gilydd. Ymddeolais ar ôl gyrfa o dros 40 mlynedd yn yr Heddlu, ac felly roedd gen i'r gobaith o gael mwy o amser i wneud pethau 'i mi fy hun' (*efallai y bydda i'n sgwennu am fy ngyrfa i'r cylchgrawn ryw ddiwrnod, os oes rhywun yn teimlo fel mynd i'r drafferth i ddarllen fy nodiadau blêr!*), ac fe wnaethon ni hefyd gael tua thair erw o dir ar gyfer ein halpaca. Roedd hi'n amlwg bod angen ei drin a thorri'r glaswellt mewn ffordd na ellir ei wneud ond efo tractor.

Daeth y sêr at ei gilydd eto – y diwrnod ar ôl i mi ymddeol, roeddwn i'n gyrru i Sioe Genedlaethol yr Alpaca ar faes sioe Swydd Stafford. Ychydig filltiroedd cyn cyrraedd maes y sioe, gwelsom fferm ar ochr y ffordd oedd â nifer o dractorau clasurol ar werth. Byddai wedi bod yn biti garw peidio â mynd i gael golwg o leiaf! Wedi'r cwbl, does dim byd o'i le ar ychydig o edrych ar siopau, nag oes?



Awr yn ddiweddarach, trodd hynny'n siopa go iawn, ac roeddwn wedi talu blaendal ar Ffyrgi bach llwyd!

Bythefnos yn ddiweddarach, cyrhaeddodd y gwerthwr ein tŷ ni efo tractor HSP 431, a ddaeth yn ddiweddarach yn 'Ferguson TED 20', wedi ei gofrestru yn 1950. Trwy gyd-ddigwyddiad hapus — efallai fod y sêr wedi alinio eto — cyrhaeddodd ar ei ben-blwydd yn 76 oed. Roedd angen ychydig o waith cynnal a chadw i'w gael i redeg yn iawn, yn ogystal â newid rhai peipiau er mwyn ei helpu i gadw'r dŵr y tu mewn i'r system oeri, yn hytrach na'i chwistrellu allan fel geiser mewn cwmwl o ddŵr poeth a stêm bob tro roedd yr injan yn mynd yn boeth.

Gosodwyd peiriant torri gwair modern arno, a dyna i chi wyrth — roedd y tractor 76 oed yn gallu torri'r glaswellt yn y caeau oedd wedi gordyfu, gan ei adael ar uchder perffaith i'r alpaca.

Ta waeth, roedd yr awydd i gymryd rhan mewn taith dractorau yn mynd yn rhy gryf i'w anwybyddu, a daeth Taith Dractorau Dyffryn Clwyd yn gyfle cyntaf perffaith. Cysylltais ag un o'r prif drefnwyr, y dynamo dynol, Bryn Davies, a wnaeth lawer o sylwadau cadarnhaol a chefnogol a'm sicrhau y byddwn i'n iawn, y byddai'n hwyl ac nad oedd dim i boeni amdano. Felly, roedd Mehefin 7fed wedi ei serio'n amlwg yn fy nyddiadur.

Fe wnes i gwpl o lapiau ymarfer o amgylch y lonydd lleol, ac yn fuan iawn cyrhaeddodd 7 Mehefin. Cychwynnais am fan cychwyn y daith ym Marchnad Rhuthun, lle ymunais â thua 80 o dractorau eraill, yn amrywio o hen dractorau clasurol fel fy un i, i dractorau modern anhygoel o drawiadol ac anferthol o fawr.



Rhoddodd Bryn sesiwn friffio diogelwch i godi morâl drwy fegaphon, ond rwy'n tyngu nad oedd wedi'i droi ymlaen o gwbl, neu ei fod wedi'i osod ar y lefel isaf bosibl! Yn ystod y sesiwn friffio honno, llwyddais i glywed ei fod wedi egluro

## Y Ffyrgi bach llwyd

mai Ystad y Rhug ger Corwen fyddai'r man hanner ffordd, lle byddem yn stopio am ginio, a bod y daith ar ei hyd yn 30 milltir, ie, ***30 milltir?!***

Daeth panig drosof. Y pellaf roeddwn wedi gyrru'r tractor cyn hynny oedd tua thair milltir. Doedd gen i ddim syniad faint o danwydd y byddai'n ei ddefnyddio, ac a fyddai'n ddibynadwy ac yn y blaen. A dyma ni'n cychwyn — llwybr gwych ar hyd y lonydd culaf yn y byd, rhai â tharmac a rhai hebddo, gan ymdroelli i fyny ac i lawr y bryniau drwy Goedwig Clocaenog I'r Rhug ac yn ôl. Roedd gwir ymdeimlad o gyfeillgarwch, a theimlad go iawn ein bod wedi cael ein llusgo'n ôl mewn amser i gyfnod mwy syml a mwy cyfeillgar.

Bob tro y bydden ni'n cyrraedd cyffordd fawr, roedd Bryn yno'n barod — does gen i ddim syniad sut — â gwên a bawd i fyny yn ein cefnogi. Mi wnaeth hyn wahaniaeth enfawr.




Mi gyrhaeddais yn ôl i'r man cychwyn yn safle'r arwerthiant, sawl awr ar ôl i ni gychwyn, gyda gwên lydan ar fy ngwyneb ar ôl diwrnod gwych. Roedd y Ffyrgi bach wedi bihafio'n berffaith, ac, â barnu oddi wrth sŵn yr ecsôst, roedd yntau hefyd wedi mwynhau ei ddiwrnod allan yn fawr! Dwi'n edrych ymlaen at lawer mwy o anturiaethau ar gyflymder araf yn sêt y Ffyrgi Bach Llwyd.

Cododd Taith Dractorau Dyffryn Clwyd y swm anhygoel o £9,000 i Feiciau Gwaed Cymru.

*Mark Owen*

## Rysáit

***Crymbl Afal a Mwyar Duon***

Rysáit dymhorol ar gyfer y mis hwn, gan fod afalau a mwyar duon yn aeddfedu'n gyflym. Fel arfer mae'n ras rhyngom ni a'r fwyalchen i gael y gorau o'r mwyar, ond rydyn ni bob amser yn gadael digon iddyn nhw!

**CYNHWYSION**

**Gwaelod y crymbl:**

4 afal bwyta, eu pilio, tynnu'r canol a'u torri
2 gwpan o fwyar duon ffres (tua 280g, ond defnyddiwch beth bynnag sydd gennych)
2 lwy fwrdd o siwgr mân
Joch o sudd lemwn

**Topin y crymbl:**

150g o flawd plaen
90g o fenyn
50g o geirch wedi'u rholio (mae ceirch uwd yn iawn)
75g o siwgr demerara

**DULL**

Cynheswch y popty ymlaen llaw i 180 °C (160 °C efo ffan), Nwy 4.
Rhowch yr afalau, y mwyar duon, y siwgr mân a'r sudd lemwn mewn dysgl bobi fas addas a chymysgwch yn dda. Bydd y lemwn yn helpu i atal yr afalau rhag troi'n frown wrth i chi baratoi'r crymbl. Mewn powlen, rhwbiwch y blawd a'r menyn gyda'ch bysedd nes bod y cymysgedd yn debyg i friwsion bara. Yna, cymysgwch y ceirch a'r siwgr demerara i mewn. Taenwch y cymysgedd crymbl dros y ffrwythau a'i lefelu'n ysgafn. Pobwch y crymbl yn y popty, wedi'i gynhesu ymlaen llaw, am 35–40 munud, neu nes bod y ffrwythau'n feddal ac yn byrlymu, a'r top yn frown euraidd.

*Gwen Butler*

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer
Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Y Gymdeithas Seryddiaeth





Mae mis Awst wedi bod yn fis prysur iawn a thipyn yn fwy prysur na'r disgwyl ar 12 Awst, yn y digwyddiad i wylio'r diffyg ar yr haul ym mwyty'r Ceffyl Gwyn, Hendrerwydd. Daeth cymaint o bobl o bob oed yno, ac fe welson ni'r diffyg rhannol ar yr haul pan guddiodd y lleuad ran o'r haul. Diolch yn fawr iawn i Lucy, Jason a'r staff am gynnal y digwyddiad ac i Ian o Fferm Hendrerwydd am agor ei gae i'r holl geir. A diolch ANFERTH i bawb a ddaeth i fwynhau'r profiad rhyfeddol yma. Fel y gallwch weld o'r golwg ar wyneb un o'n haelodau, roedd yn brofiad hynod unwaith mewn bywyd.

Er gwaethaf diffyg sbectol briodol i edrych ar yr haul, gwnaeth llawer y tro gyda cholandr, yn troi cefn yr haul ac yn ei ddefnyddio i daflu delweddau o'r haul ar y ddaear neu ddarn o bapur.

Byddwn yn cyfarfod nesaf nos Fawrth, 29 Medi am 7.30 yn ystafell isaf neuadd y pentre, pan fyddwn yn clywed hanes Mary Ann Draper, a oedd yn arloesi mewn seryddiaeth.

Hefyd, cofiwch alw i weld ein harddangosfa yn Amgueddfa Dinbych – ar agor ar bnawniau Llun/Iau/Sul, o 1 tan 4.

Er gwaetha'r glaw, fe gawson ni amser ardderchog yn Sioe Dinbych.Diolch i bawb a ddaeth heibio am sgwrs.




**Bore coffi**

**Bore Sadwrn, 26 Medi**

**10am-11.15 yn Neuadd y Pentre**

Er budd Alder Hey CHILDREN'S CHARITY

Mae Dylan Hughes o'r Ceffyl Gwyn yn cael triniaeth ar hyn o bryd yn Ysbyty Alder Hey – dewch i gefnogi'r teulu.

# Car cyntaf ein teulu

1 Mawrth 1965.

Beth sydd mor arbennig am y diwrnod hwnnw, meddech chi? Roedd yr ysgol wedi cau am hanner diwrnod, gan ei bod hi'n ddydd Gŵyl Dewi (dyna'r drefn ym Morgannwg yr adeg honno) a dyna'r diwrnod mawr pan aethon ni fel teulu i lawr o Ystalyfera i CEM Day yn Abertawe i brynu car (ar y bws, wrth gwrs).

Doedd dim llawer o arian yn sbâr gan Dad a Mam yn ystod fy mhlentyndod, yn byw ar ddim ond cyflog Dad fel athro, cyflog digon isel ar y pryd. Ond cafodd Mam ychydig o arian ar ôl perthynas, a dyna ddigon i brynu car. Ford Anglia glas newydd sbon, tebyg i'r un yn y ffilmiau Harry Potter, a brynwyd am £500 – DCY 45C, ag arwydd '*Running in, please pass*' ar y ffenest ôl.




Roedd Dad yn prynu petrol fesul punt ac yn cael pedair galwyn am hynny. Roedden ni'n cael ein petrol o'r garej Regent yn y pentre, ac roedd y cwmni'n cynnig sticer tyllau bwledi i roi ar ffenest y car – '*James Bond bullet-hole transfers*'. Mynnodd Glyn, fy mrawd, fod Dad yn rhoi'r rhain ar y ffenest ochr, ac wele brifathro a phregethwr cynorthwyol yn mynd i'w waith a'i gyhoeddiadau mewn car â thyllau bwledi ar ei ffenest.

Gan nad oedd hi'n bosib cynhesu'r ffenest ôl yr adeg honno, gwaith Glyn a minne oedd sychu'r stêm oddi arni. Roedd rhaid cael 'parking light' hefyd, y golau'n clipio ar y ffenest, a'r weiren yn mynd i blwg rywle o dan yr olwyn lywio. (Bryn erioed wedi clywed am hyn – doedd dim angen un i barcio o flaen Bryn Ffolt!) Roedd rhaid cael hwn yn yr 1960au oherwydd doedd golau stryd ddim yn dda iawn yr adeg honno, ac roedd rhaid defnyddio golau parcio tan ddiwedd y degawd. Erbyn yr 1970au roedd golau stryd wedi gwella, a doedd dim angen goleuadau parcio.

Byddai'r car yn mynd yn o bell weithiau yn ystod gwyliau'r haf. Buon ni oddi cartref am bedair wythnos un haf ddiwedd yr 1960au – ymweld â chwiorydd Dad yn Llundain, wedyn i Coventry i weld un o'i frodyr, ac ymlaen i Halifax i weld brawd arall. Yn ystod y daith yma fe gyrhaeddon ni Oldham tua 5 o'r gloch, adeg brysura'r dydd. Gan fod Dad yn yrrwr gymharol ddibrofiad, rwy'n cofio iddo fod yn reit nerfus yn ystod 'mam pob traffic jam.' Hyd yn oed heddi, mae clywed yr enw Oldham yn codi ias arna i.

Nodwedd arbennig arall o'r teithiau hyn yn yr Anglia oedd tuedd Dad i gyfansoddi geiriau dwl i gyd-fynd â chaneuon cyfarwydd – y tonau'n amrywio o '*O ruddier than the cherry*' gan Handel i '*Tie my kangaroo down*' gan Rolf Harris. Hyd yn oed heddi, yn 98 oed, mae'n dal i gyfansoddi caneuon i geisio difyrru ei or-wyrion bach (ond yn anffodus, yn methu!).

Mae'n rhyfedd fel mae'r cylch yn troi yn ein bywydau – erbyn hyn dwi'n byw lai na 50 milltir o'r ffatri yn Halewood lle cafodd yr Anglia ei gynhyrchu. A dweud y gwir, y Ford Anglia oedd y car cyntaf i'w gynhyrchu yno, yn 1963. Cafwyd cystadleuaeth i ennill y car cyntaf, ond roedd y dyn a'i henillodd yn methu gyrru!

Wrth ymweld ag Amgueddfa Lerpwl rai blynyddoedd yn ôl, roedd hi'n hyfryd gweld yr Anglia cyntaf yn rhan o'r arddangosfa ac ysgogodd atgofion lu am fy mhlentyndod.

*Anwen Davies*



# Hanesion Hazel



Wrth sgwennu hwn yng nghanol mis Awst, fydd hi ddim yn syndod i neb ohonoch chi fod mwy na hanner Lloegr a rhannau o Gymru yn swyddogol mewn sychder, yn dilyn glawiad isel iawn a thonnau gwres poeth dros yr haf. Ryden ni wedi gweld cefn gwlad yn sych grimp, a thanau gwyllt yn llosgi ledled de a chanolbarth Cymru, yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin a chymoedd y Rhondda. Anfonodd y llywodraeth rybudd tân brys cenedlaethol i bob un o'n ffonau symudol ni ddydd Gwener, 14 Awst. Torrodd hyn ar draws ein pryd ni fel teulu yn Felin Brwcws – roedd pob ffôn symudol yn y lle yn gwneud sŵn tebyg i seiren, ynghyd â dirgryniad cryf a phenodol — ddwywaith, ar gyfer y neges Gymraeg ac ar gyfer y neges Saesneg. Gallwch ddychmygu'r anhrefn!

Wrth fynd â'r cŵn am dro ar y bryniau, mae'r tir yn teimlo mor grimp dan draed ac mae arogl sych, llychlyd ac annymunol rhyfedd yn yr awyr. Mis Medi ydi'r adeg pan fydd Bryniau Clwyd yn troi'n biws efo'r grug yn ei flodau llawn. Fel arfer, mae'n blodeuo o ddechrau Awst hyd ganol mis Medi, ond dwi wedi sylwi bod y blodau'n fach ac yn llai bywiog eleni.

Mae'n gerddi ni i gyd wedi dioddef hefyd, ac wrth i ni gael ein hannog i fod yn ofalus faint o ddŵr rydym yn ei ddefnyddio, mae fy mhatsh llysiau, fel y gwelwch yn y llun, yn sych ac yn foel. Yn syml, mi grebachodd y maip a'r swej a throi'n llwch mân. Mae ychydig o fetys yn dal ati, ond yn llai nag y dylen nhw fod erbyn mis Medi, ac mae'r cennin wedi rhoi'r gorau iddi'n llwyr. Mae dail yr India-wedi cyrlio i fyny er mwyn atal colli lleithder.

Bydd llawer ohonoch chi wedi sylwi bod llwyni a choed yn troi'n frown ac yn colli eu dail cyn eu hamser. Ymateb y planhigion ydi hyn i ddiffyg dŵr. Efallai y byddan nhw'n gwella unwaith y daw'r glaw, ond mae'n debyg na fyddwn ni'n gwybod yn iawn tan y gwanwyn beth fydd effaith y sychder. Mae fy nghoed afalau hefyd yn gollwng eu hafalau'n gynnar. Soniodd Monty Don ar *Gardeners' World* mai greddf goroesi'r coed ydi taflu canran o'u cnwd er mwyn gwneud yn siŵr bod rhai ffrwythau'n aeddfedu ac yn cynhyrchu hadau.

Mae planhigion yn reddfol yn ceisio goroesi pan fydd diffyg dŵr. Maen nhw'n defnyddio signalau cemegol cymhleth a newidiadau ffisegol e.e. gollwng eu ffrwythau er mwyn arbed dŵr a chadw eu hunain yn fyw. Maen nhw'n cau eu mandyllau, sef y tyllau bach ar y dail, ac yn eu selio'n dynn er mwyn atal dŵr rhag dianc – yn union fel yr india corn yn cyrlio ei ddail yn y caeau. Gall rhai planhigion hyd yn oed roi'r gorau i dyfu'n gyfan gwbl a mynd i gysgu nes daw'r glaw.

Mae arbenigwyr garddio yn dweud bod angen i ni newid ein harferion garddio er mwyn addasu i'r amodau hyn. Mae'n debyg y bydd 2026 y flwyddyn boethaf a gofnodwyd erioed yn y DU.

Dwi'n siŵr bod llawer ohonoch chi'n cofio'r haf chwedlonol hwnnw yn 1976 –



# Hanesion Hazel

mae o wedi'i wreiddio'n ddwfn yn hanes hinsawdd Prydain, gyda thymheredd uchaf o 35.9 °C. A bydd 2026 hefyd yn cael ei chofio, efo'r tymheredd uchaf a gofnodwyd yn 38.1 ° C. Mae haf 2026 wedi bod yn eithriadol o anarferol yn hanesyddol, gyda sawl ton gwres, a thymheredd yn torri record, a chymaint o sychder.

Felly, pan fydd y tapiau wedi rhewi a ninnau i gyd yn sglefrio ar ffyrdd rhewllyd ac yn rhawio eira neu'n dadrewi'r car, gadewch inni gofio'r nosweithiau poeth a mwll di-baid hynny a ninne'n methu cysgu, y llenwi bwcedi cyson ar gyfer yr anifeiliaid a'r chwilio am gysgod - oherwydd mae'r cyfan oll yn rhan o fyw ar y blaned hon, y Ddaear.

*Hazel*

# Grŵp Cyfeillgarwch

Te prynhawn yng nghartref un o'n haelodau oedd cyfarfod mis Awst y grŵp. Roedd yn gyfarfod hyfryd gyda chroeso cynnes gan Jane, digon o fwyd a chwmni da. Fe gawson ni i gyd amser da.

# Y Tuesday Club

Yn lle ein cyfarfod misol arferol, ym mis Awst fe gawson ni fore coffi i godi arian at goffrau'r clwb i dalu am y costau gweinyddu, ac i gyfrannu at hosbis plant Tŷ Gobaith. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth, codwyd £405. Cyfrannwyd £205 at Dŷ Gobaith a chafodd y clwb £200.

Bydd y cyfarfod nesa bnawn dydd Mercher, 16 Medi am 2 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco. Edrychwn ymlaen at glywed hanes pobl fusnes lwyddiannus iawn yng Nghairo. Croeso i aelodau newydd!


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602



Prompt Travel

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week

Incorporating Vale Private Hire

01824 790485
07974 862027

Teithiau Prydlon

Tacsi a Hurio Preifat

# Y Clwb Garddio

**RHAGLEN 2026/7**

**MEDI 8$^{fed}$** Dawn Gough yn sgwrsio am '*The Crafty Gardener*'. Mae pawb ohonom eisiau arbed arian ac edrych ar ôl yr amgylchedd. Mae'r sgwrs hon yn ymwneud â sut fedrwch chi ddefnyddio nwyddau cartref a'u hailgylchu mewn dulliau newydd.
**HYDREF 13$^{eg}$** Cyfarfod Blynyddol gyda phanel o 'arbenigwyr'. E-bostiwch ni â'ch cwestiynau garddio a bydd ein panel yn eu hateb.
**TACHWEDD 10$^{fed}$** The Real Fun Guy: Tyfu madarch.
**RHAGFYR 8$^{fed}$** Graham Pickles fydd yng ngofal Noson Gymdeithasol a Chwis.
**IONAWR 12$^{fed}$** David Winnard: 'Planhigion sy'n iacháu a phlanhigion sy'n lladd.'
**CHWEFROR 9$^{fed}$** Dave Rimmer: 'Gwneud a defnyddio compost organig.'
**MAWRTH 9$^{fed}$** Owain Roberts: 'Tyfu llysiau i'w harddangos.'
**EBRILL 13$^{eg}$** Iwan Edwards: Garddio bywyd gwyllt – pwysigrwydd ein gerddi yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.
**MAI 11$^{eg}$** Susan Nicholas: 'Creu Planhigion newydd'.
Ym mis Mai byddwn yn cynnal ein 'Gwerthiant Planhigion' blynyddol yn Neuadd Llandyrnog ar 15ed Mai (agor am 10am).
**MEHEFIN 9$^{fed}$ Sylwch – mae'r cyfarfod ar ddydd Mercher**
Ni fydd cyfarfod yn y neuadd y mis hwn. Byddwn yn ymweld â gardd Sioned Edwards, Pont y Tŵr, Llanbedr ddydd Mercher 9fed Mehefin. Mwy o fanylion i ddilyn.
**GORFFENNAF**
Ymweld â gardd – fel arfer byddwn yn mwynhau ymweliad preifat y clwb â gardd leol. I'w gyhoeddi'n ddiweddarach.

# Llandyrnog Utd

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed ein pentre ar y dechrau ardderchog i'r tymor, gan ennill y pum gêm gyntaf. Rhaid crybwyll yn arbennig y gêm yn erbyn Rhyl Rangers dydd Sadwrn, 29 Awst: Llandyrnog 21, Rhyl Rangers 0. Sgoriodd un ar ddeg o chwaraewyr yn y gêm yma!


Hefyd fe enillon nhw yn erbyn Rhyl Athletic 3–0; CPD Towyn 3–2 ar ôl bod ar ei hôl hi ddwywaith; Rhuddlan Town 4–1, gyda Danny Clark yn sgorio tair; a CPD Llysfaen 3–1.

Daliwch ati!

## Cyngor Sir Ddinbych



**Merfyn Parry**
Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446
*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*



# Eisteddfod Llandyrnog

## BORE COFFI

**DYDD SADWRN, 12 MEDI, 10am**

**YN NEUADD Y PENTRE**

COFFI, STONDINAU A RAFFL – DEWCH AM SGWRS!

**CROESO I BAWB**

Yr elw at

Eisteddfod

LLANDYRNOG

Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal eleni ar Nos Wener, Hydref 16eg yn Neuadd y Pentref. Ond cyn hynny cynhelir Bore Coffi ar fore Sadwrn, Medi 12fed i godi arian tuag at ei chynnal. Cofiwch alw!

Fe sylwch ar yr hysbyseb uchod ein bod wedi cael logo! Carem ddiolch yn fawr iawn i Mari Wynne Williams (cwmni Elysteg) sy'n byw yn y pentref, am ddylunio'r logo hyfryd i ni yn defnyddio Bryniau Clwyd fel cefndir. Mae'r logo ar raglen yr Eisteddfod eleni a bydd hefyd yn ymddangos ar ein tudalennau Facebook ac Instagram a fydd ar gael yn fuan. Diolch i Gwenno, Groes Efa Bach am ei gwaith gyda'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd y rhaglen ac unrhyw wybodaeth berthnasol am yr eisteddfod yn ymddangos ar y tudalennau yma. Cofiwch hoffi a rhannu!

# Gair gan yr offeiriad

Wrth i mi ysgrifennu'r ychydig eiriau hyn ar ddiwrnod heulog hyfryd yma yn Llandyrnog, dwi'n meddwl am y rhai sy'n brysur yn paratoi ar gyfer y sioe yn neuadd y pentre ar ddydd Llun Gŵyl y Banc. Dwi'n cofio dod draw y llynedd ac yn rhyfeddu at yr holl ddoniau sydd gan gymaint o'n preswylwyr, a dwi'n edrych ymlaen at ymuno â chi eto eleni. Er nad ydw wedi fy mendithio â'r gallu i gymryd rhan, yn anffodus, dwi'n gwerthfawrogi'n fawr yr amser a'r ymdrech mae'r rheini sydd â'r gallu yn eu gwneud er mwyn i'r sioe fod yn un y gallwn edrych ymlaen ati. Rydyn ni'n gwybod y bydd y cystadlaethau yn ein syfrdanu – y trefniadau blodau, y llysiau, a'r darnau celf amrywiol sy'n ein hatgoffa ni o brydferthwch y greadigaeth.

Gallwn brofi rhyfeddod a harddwch creadigaeth Duw lle bynnag yr ydyn ni, wrth gwrs. P'un ai genedigaeth aelod newydd o'r teulu; mwynhau ein gerddi, cefn gwlad, traethau; neu'r tangnefedd ysbrydol yr ydyn ni'n ei brofi allan ym myd natur, mae digon i'n hatgoffa'n gyson o waith llaw Duw yn ein byd ymhobman. Dewch i ni barhau i ofalu am y ddaear i'w hamddiffyn a'i chynnal a diolch i'n creawdwr, Duw. Boed i chi gael eich bendithio â chariad o'r newydd at yr holl greadigaeth a diolch am gefnogaeth a chydweithrediad ein cymuned hyfryd yma yn Llandyrnog. Bendith Duw arnom ni i gyd.

*Y Parchedig Ganon Juliet Fraser*

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**

becky.gittins.mp@parliament.co.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

# Siop Llandyrnog Shop

Ydych chi erioed wedi pendroni beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni yn y siop? Neu efallai fod gennych amser i'w gynnig fel gwirfoddolwr? Rydym yn croesawu gwirfoddolwyr newydd i'r siop ac aelodau newydd i'r bwrdd. Ymunwch â ni ar 17 Medi yn y cyfarfod blynyddol i glywed am heriau a llwyddiannau eleni, ynghyd â chrynodeb o'r cyfrifon ac ethol aelodau'r bwrdd. Mae angen i 10% o'r cyfranddalwyr bleidleisio ar nifer o faterion, felly byddai eich presenoldeb yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Hefyd, cofiwch fynd i lawr yr ale gefn i weld yr ardal eistedd yn yr ardd sydd newydd gael ei hadnewyddu. Diolch i grant hael iawn gan Gadwyn Clwyd, llwyddwyd i gyflogi AH Groundworks – cwmni o Landyrnog – i wneud y gwaith adnewyddu. Gweithiodd tîm AH Groundworks yn ddiflino yn yr haul poeth! Fe wnaethant gyfrannu'n hael y llafur ychwanegol roedd ei angen i gludo'r holl ddeunyddiau o du blaen yr adeilad, gan fod y mynediad i'r tu cefn yn gyfyngedig.

Sicrhawyd grant ychwanegol gan The Codi Trust, sydd wedi ein galluogi i brynu dodrefn a phlanhigion ychwanegol ar gyfer yr ardd. Oherwydd y sychder, rydym yn mynd i ohirio'r gwaith plannu er mwyn sicrhau bod y planhigion newydd yn cael y cyfle gorau i wreiddio heb fod angen defnyddio gormod o ddŵr.

Rydym wedi cael ychydig o arwyddion newydd hyfryd i ddangos y ffordd i'r ardd. Yn ogystal â chreu yr arwyddion sy'n dangos y ffordd i'r ardd ac i'r rac beiciau, cyfrannodd Gary Hession o Vale Crafts yn hael tuag at y gost hefyd! Edrychwch ar ei dudalen Facebook am amrywiaeth o anrhegion a chrefftau, pob un wedi'i wneud o bren. Maen nhw hefyd ar werth yn Tŷ Ceffyl Bach.



Yr ardd yn y tu cefn cyn dechrau'r gwaith…



… ac wedyn.

